

Cymryd Duw o ddifrif

“Fel y dyhea ewig am ddyfroedd rhedegog, felly y dyhea fy enaid amdanat ti, O Dduw.” (adn. 1)

Beth am ddarlhen Salm 42:1–11 ac yna myfyrio

Yr ydym am symud yn awr i ystyried y rhinwedd y mae Pedr yn ei ddweud sydd yn rhaid ei ychwanegu at ddyfalbarhad, sef ‘duwioldeb’. Y gair Groeg *eusebeia*, a ddefnyddid mewn cylchoedd paganaidd i olygu parch, addoliad, crefydd, yw’r gair sylfaenol i’r hyn y mae Pedr yn ei nodi yn y fan yma.

Blynnyddoedd lawer yn ôl, bûm yn siarad â chriw o bobl ifainc ar dduwioldeb, a chyn inni gychwyn, fe wahoddais bob un ohonynt i gyfrannu eu syniadau ar y pwnc. Dyma oedd rhai o’u hymatebion: “Duwioldeb yw byw fel meudwy...peidio byth â phriodi... gwisgo yn dlawd... mynd i’r eglwys bob tro y mae yna wasanaeth... mabwysiadu bywyd syml...ymprydio un diwrnod yr wythnos...gweddfio am o leiaf un awr y dydd...peidio â gwyllo’r teledu.” Tra oeddem yn parhau i edrych ar y pwnc, gofynnodd rhywun: “A all rhywun fod yn dduwiol a gyrru Porsche?” Esboniais mai agwedd yw duwioldeb, agwedd tuag at Dduw ei hun. Ni ddylid ei gymysgu â’r olwg allanol, oherwydd, yn ôl yr Ysgrythur, y mae’r Arglwydd yn edrych ar y galon (1 Samuel 16:7). Yr hyn sydd yn bwysig yw fod person yn sensitif tuag at Dduw, yn cymryd Duw o ddifrif, yn dilyn ei arweiniad ymhob peth.

Yr wyf wedi dewis y testun yma heddiw oherwydd credaf ei fod yn arwyddo gwir ystyr duwioldeb. Mae gan y person duwiol galon sydd yn dyheu am Dduw. Fe fydd, yn ôl Tommy Tenny, yn un sydd yn rhedeg ar ôl yr Arglwydd. Gall y person duwiol fod yn ifanc neu yn hen, yn gyfoethog neu yn dlawd. Gall berthyn i unrhyw genedl, liw neu ddiwylliant. Does yr un o’r pethau yr wyf wedi eu nodi yn bwysig. Yr hyn sydd yn bwysig yw dymuniad yr unigolyn i redeg ar ôl yr Arglwydd, i glosio at yr Arglwydd, ac i gymryd yr Arglwydd o ddifrif.

Beth am fynd ymlaen i ddarlhen:

Salm 63:1–11; 84:1–12

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw nodweddion y sawl sydd yn mynd ar ôl yr Arglwydd?
2. Pa nodweddion sydd yn cael eu hamlygu yn eich bywyd chi?

Gweddi

O Dad, rwy’n dyheu am galon sydd yn dyheu amdanat ti. Cyffwrdd â’r calon mewn ffordd newydd heddiw er mwyn i mi fod, fel y salmydd, yn sychedig ac yn dyheu amdanat ti. Gwna hyn yn enw Iesu. Amen.